OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1268

# Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009

**Hysbysiadau**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o gychwyniad y gwaith hwnnw i'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd honno, gan nodi'r stryd y mae'r gwaith i'w gyflawni ynddi ("hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith"), ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cychwynnir y gwaith.

(2) Pan fo gwaith yn cael ei gyflawni o dan drwydded sydd wedi ei chaniatáu gan Awdurdod Trwyddedau mewn stryd sydd yn sensitif i draffig neu mewn stryd yng nghategori ffordd 0, 1 neu 2 nad yw'n stryd sydd yn sensitif i draffig, y cyfnod y mae'n rhaid i'r hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith gael ei gyflwyno oddi mewn iddo yn unol â pharagraff (1) fydd y cyfnod sy'n gymwys yn rhinwedd paragraff 16.7 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Trwyddedau dyddiedig Mehefin 2009.(**1**), fel y caiff ei ddiwygio neu ei ailgyhoeddi o bryd i'w gilydd.

(3) Pan fydd ymgymerydd—

(a) wedi cwblhau adferiad dros dro o briffordd;

(b) wedi symud ymaith—

(i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a

(ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac

(c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus,

rhaid i'r ymgymerydd hwnnw hysbysu'r awdurdod priffyrdd fod hyn wedi ei wneud ("hysbysiad o fod yn glir o waith") ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cafodd y briffordd ei hadfer yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

(4) Pan fydd ymgymerydd—

(a) wedi cwblhau adferiad parhaol o briffordd;

(b) wedi symud ymaith—

(i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a

(ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac

(c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus,

rhaid i'r ymgymerydd hwnnw hysbysu'r awdurdod priffyrdd fod hyn wedi ei wneud ("hysbysiad o gwblhau gwaith") ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cafodd y briffordd ei dychwelyd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

(**1**) Cyfeiriad y wefan i ddilyn.